# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Hafan Deg**

**Cartref Hen Bobl Hafan Deg**
**Teras y Deml**
**Llanbedr Pont Steffan**
**SA48 7BJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Hafan Deg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Tachwedd 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gânt. Maent yn cael eu cefnogi gan staff gwybodus a phrofiadol. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y penderfyniad am eu gofal a'u cymorth. Mae'r rheolwr yn adnabyddus ac yn cael ei werthfawrogi gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth.

Nodwyd yr amgylchedd fel mater ar gyfer Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn yr arolygiad blaenorol. Mae'r darparwr wedi ailddatblygu rhan o'r cartref ac wedi cwblhau rhywfaint o waith uwchraddio ond mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau i fod ar agor oherwydd yr effaith ar lesiant y bobl.

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda; defnyddir gwybodaeth o'u hymweliadau, adolygiadau ac archwiliadau i asesu a gwella ansawdd.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol, sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig. Wrth drafod y gweithwyr gofal, dywedodd un unigolyn *“this is a lovely place and the staff are wonderful”.*

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus am fod y staff yn eu cefnogi i ryngweithio â'i gilydd ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda a gwelsom lawer o ryngweithio cyfeillgar. Mae'r cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y gwasanaeth; dywedodd un *"The home is excellent and the staff are fantastic”*. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, a gallant gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed gan fod prosesau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a’r cymorth cywir. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau sefydlu a chyfleoedd datblygu parhaus ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran codi pryderon yn llawn. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny.

Mae'r amgylchedd cyffredinol yn dal i fethu â chefnogi'r bobl yn llawn i gyflawni canlyniadau. Mae angen gwaith addurno er mwyn cefnogi llesiant y bobl yn well, gan ei fod wedi dyddio. Roedd y mater hwn yn destun Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth blaenorol a bydd yn parhau ar agor. Mae'r tiroedd a'r gerddi wedi'u hailddatblygu i fod yn ofod lliwgar ac ysgogol i'r bobl ei ddefnyddio. Mae'r amgylchedd mewnol wedi'i wella mewn mannau, yn enwedig y rhan o'r cartref sydd wedi'i hailddatblygu i roi cymorth penodol i'r bobl sy'n byw gyda dementia.

Mae gan y bobl lais am eu bod nhw a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn yr ymweliadau Rheoliad 73 chwarterol. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn canmol y gofal a'r cymorth a gânt yn fawr. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod yr unigolion yn dda, yn deall eu hanghenion ac yn cymryd amser i stopio a rhyngweithio â'r unigolion y maent yn eu cynorthwyo. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r cymorth gan eu gweithwyr gofal a dywedasant wrthym: *"The staff are bloody brilliant"* and *"The staff are great, fantastic".* Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau dod i adnabod y bobl a'u cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl; dywedodd un wrthym *"I really enjoy working with the residents".* Mae cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol iawn am y gofal a'r cymorth a gynigir, dywedasant wrthym *"I can't say enough about the staff, they are brilliant"* a *"We are very happy with the care, it's very good and we are really impressed".*

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau personol. Mae'r rheolwr hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr yr unigolion, y gweithwyr gofal a gweithwyr proffesiynol allanol i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Mae uwch-aelodau o'r staff yn adolygu'r cynlluniau gyda'r bobl a'r gweithwyr gofal yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol o hyd ac yn bwriadu cynnwys cynrychiolwyr ymhellach mewn adolygiadau. Mae tystiolaeth dda bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys wrth lunio'r cynlluniau. Mae'r nodiadau dyddiol yn llawn gwybodaeth ac yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a roddwyd ac yn rhoi disgrifiad o'r diwrnod o safbwynt y person.

Mae'r bobl yn mwynhau gweithgareddau o fewn y cartref ac yn eu cymuned leol. Mae'r unigolion yn cymryd rhan mewn celf, crefft, garddio a cherddoriaeth, yn ymweld â siopau lleol ac yn cael eu cefnogi i ryngweithio â'i gilydd mewn amrywiol ddigwyddiadau cymdeithasol. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar ymwelwyr a gall y bobl gyfarfod â'u ffrindiau a'u teulu ble bynnag a phryd bynnag y dymunant.

Mae'r staff yn ymatebol i'r bobl a gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol a chyfeillgar yn ystod yr arolygiad. Mae llawer o'r gweithwyr gofal yn lleol i'r ardal ac yn gallu cyfathrebu â'r bobl yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.

## Yr Amgylchedd

Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i'r darparwr yn dilyn yr arolygiad llawn diwethaf. Mae'r ystafell fwyta wedi cael ei hadnewyddu; mae sawl ystafell wely wedi cael ei hatygyweirio a'i hailaddurno a gosodwyd lloriau newydd yn y coridorau. Mae gweddill y gwaith uwchraddio wedi'i ohirio oherwydd bod y darparwr yn canolbwyntio ar ailddatblygu rhan o'r adeilad. Mae'r ardal newydd hon wedi'i chynllunio i gefnogi'r bobl sy'n byw gyda heriau ar y cof. Mae'r ardaloedd cymunedol yn olau ac wedi'u cynllunio i wneud defnydd o dechnoleg gynorthwyol. Mae'r tiroedd wedi'u hailddatblygu'n llwyr, gyda llawer o blanhigion lliwgar, ardaloedd gwahanol i ymlacio ynddynt a'u bwriad yw cefnogi'r bobl i ryngweithio â'i gilydd. Mae'r gweithwyr gofal y gwnaethom siaradwyd â nhw yn gadarnhaol am y gwelliannau i'r amgylchedd ac yn edrych ymlaen at gwblhau gweddill y gwaith. Mae cynrychiolwyr y bobl hefyd yn gadarnhaol am y gwaith a gwblhawyd a dywedodd un wrthym *“The new garden is beautiful”.*

Mae gan y darparwr gynllun i ymdrin â'r diffygion sy'n gysylltiedig â'r adeilad ac i adnewyddu'r décor. Fodd bynnag, bydd yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau ar agor.

Mae'r bobl yn gartrefol ac yn gyfforddus yn y gwahanol ardaloedd cymunedol. Mae'r unigolion yn personoli eu hystafelloedd â'u lluniau, eu hornamentau a'u dodrefn eu hunain. Mae'r bobl a'u gweithwyr gofal yn edrych ymlaen at gael mynediad i'r gerddi newydd.

Cafodd y gegin sgôr o bump ar gyfer hylendid bwyd. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o brydau cartref, mae'r profiad bwyta yn ddigwyddiad cymdeithasol ac mae digwyddiadau fel Dydd Gŵyl Dewi, y Nadolig a'r Pasg yn cael eu dathlu gyda bwyd traddodiadol.

Cwblheir archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae profion y cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol ac mae'r darparwr yn rhoi camau gweithredu ar waith yn dilyn archwiliad diogelwch tân er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau tân. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Caiff ymweliadau Rheoliad 73 eu cwblhau bob tri mis, ac mae'r adroddiad dilynol ar yr ymweliad yn dangos yr ymgynghorir â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau ac yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen yn glir ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

Mae'r rheolwr yn adnabod yr unigolion yn dda a gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol rhyngddynt hwy a'r bobl. Mae'r staff yn disgrifio'r rheolwr fel person hawdd mynd ato a chefnogol iawn. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym *“[Manager] is very supportive and on the ball”* a *“[Managers] door is always open”.* Dywedodd cynrychiolwyr wrthym fod y rheolwr yn hawdd siarad ag ef ac yn gefnogol iawn, dywedodd un *“[Manager] is a brilliant manager, easy to talk to and I feel I could raise a concern with them, if I had one”.*

Mae'r gweithwyr gofal yn cael goruchwyliaeth effeithiol a rheolaidd, ynghyd â gwerthusiadau blynyddol. Dangosodd trafodaethau â'r staff bod dealltwriaetg dda o'r trefniadau diogelu. Mae gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, gwirio'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae staff newydd yn cael sesiynau sefydlu cynhwysfawr a hyfforddiant parhaus gorfodol, ac sy'n benodol i'r person, er mwyn diwallu anghenion y bobl. Roedd y gweithwyr gofal yn siarad yn gadarnhaol am yr hyfforddiant electronig a'r hyfforddiant wyneb yn wyneb y maent yn eu cael. Mae'r rhaglen sefydlu yn gysylltiedig â deilliannau dysgu unigol a ‘Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol’.

Mae nifer digonol o staff i ddiwallu anghenion y bobl. Mae llawer o'r gweithwyr gofal wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r bobl ac yn deall eu hamgylchiadau a'u hanghenion unigol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid yw'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n eu cefnogi'n llawn | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/07/2023